

Mehefin - Gorffennaf 2019 rhifyn 120

lingo
newydd



£2

un o gyhoeddiadau
GOLWG²¹



Trysorau Cymru



Hen
straeon
Cymru



Beth mae
Hannah Daniel
yn hoffi?

Helo, bawb!



Geraint Hardy

Dych chi wedi trefnu gwyliau dros yr haf? Dych chi isie cael gwyliau yng Nghymru?

Mae gan Geraint Hardy lot o syniadau i chi yn y rhaglen **Codi Pac**. Mae e'n mynd i wahanol lefydd yng Nghymru ac yn dangos beth sy yno. Ewch i dudalen 16 i ddarllen mwy.


Mae'r ffotograffydd Dylan Arnold yn hoffi mynd i lefydd gwahanol yng Nghymru i dynnu lluniau. Mae e'n tynnu lluniau o lefydd dirgel yng nghefn gwlad, fel hen gapeli, tai fferm a melinau gwllân. Ewch i dudalen 10 i weld rhai o'r lluniau.

Neu ... beth am fynd ar daith gyda storïau'r Mabinogi? Mae **Trafferth** yn sioe newydd i ddysgwyr. Mae'n mynd ar daith o gwmpas Cymru dros yr haf. Mae'r stori ar dudalen 4.


Os dych chi'n meddwl mynd dramor beth am fynd i St Tropez yn Ne Ffrainc? Dyna ble mae Gwawr Forsyth yn byw. Mae hi'n sôn am ei bywyd yno ar dudalen 14.

Mae Debora Morgante yn byw yn yr Eidal ond mae hi wedi bod ar wyliau i Tsieina. Mae hi wedi gweld pandas a'r deml lle dechreuodd cwng-ffw (tudalen 18).

Os dych chi'n mynd ar eich gwyliau neu os dych chi'n aros gartre – mwynhewch!



Melin Rhuthun



Debora Morgante yn Tsieina

Geiriau

lle,-fydd – *place,-s*
tynnu lluniau – *(to) take photographs*
dirgel – *secret, hidden*
cefn gwlad – *countryside*
melinau gwllân – *woollen mills*

ar daith – *on tour*
sôn am – *(to) talk about*
teml – *temple*
lle dechreuodd ... – *where ... started*
gartre – *at home*

Cynnwys

Mehefin – Gorffennaf 2019

- 2 Helo, bawb
- 3 Eich tudalen chi
- 4 Trafferth – Sioe newydd i ddysgwyr am y Mabinogi
- 5 Trysorau Cymru – Colofn newydd John Rees: Crochendy Ewenni
- 7 Dw i'n hoffi... – Hoff bethau Hannah Daniel
- 8 Cyfoes – Newid hinsawdd
- 10 Blwyddyn Darganfod Cymru – Crwydro a thynnu lluniau
- 12 Bwyd – Cig Eryri
- 14 Byw Dramor – Gwawr Forsyth yn St Tropez
- 15 Natur – Bethan Wyn Jones: Brân Goesgoch
- 16 Ar y bocs – Gwyliau yng Nghymru gyda Codi Pac
- 18 Pandas a cwng-ffw: Debora Morgante yn Tsieina
- 19 Croesair ac idiom Mumph



6



8



12



19

Geiriau

trafferth – *trouble*
colofn – *column*
crochendy – *pottery*
hinsawdd – *climate*
crwydro – *(to) wander*
tynnu lluniau – *(to) take photographs*
tramor – *abroad*
brân goesgoch – *chough*
croesair – *crossword*

Lliwiau lingo newydd

Lliwiau lingo newydd Mae cod lliw i'ch helpu chi i ddarllen lingo newydd.

- 1** Darllenwch y darnau melyn os dych chi'n dechrau dysgu.
- 2** Darllenwch y darnau gwyrdd os dych chi'n fwy profiadol.
- 3** Darllenwch y cyfan os dych chi'n brofiadol iawn.

■ Dyma liw geiriau'r De. ■ Dyma liw geiriau'r Gogledd. ■ Mae'r lliw yma i bawb.

Cyhoeddiad gan gwmni GOLWG[®]
lingo newydd, d/o Golwg, Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. SA48 7LX ☎ 01570 423529 📠 01570 423538
✉ e-bost: lingonewydd@golwg.com
Cyfranwyr: Bethan Lloyd, Dylan Iorwerth, Dyfan Williams, Mumph, Bethan Wyn Jones, John Rees (colofn newydd)

Llun clawr: Gweithiau Brics Porthwen
Ffotograffydd: Dylan Arnold



EICH TUDALEN CHI



Llun o'r beiciwr gyda'r crys-T
Gymraeg ger Sorrento

Annwyl lingo newydd,

Roeddwn i ar fy ngwyliau yn ddiweddar gyda fy nheulu yn Sorrento, yn yr Eidal. Ces i ddau brofiad Cymraeg braf ond annisgwyl.

Roedd y profiad cyntaf ar ôl i ni fod i Pompeii i weld yr adfeilion Rhufeinig anhygoel ar ôl ffrwydrad Vesuvius yn 790.C. Roedden ni ar y llwybr troed i gopa Mynydd Vesuvius lle wnaethon ni gyfarfod â myfyrwyr o Gaerdydd. Fe wnes i siarad Cymraeg â nhw ac fe wnaethon nhw roi benthg eu baner i mi ar gyfer llun gyda Daisy, un o fy merched.

Roedd yr ail brofiad mewn pentref bach o'r enw Termini. Yn y caffi lleol, ces i sgwrs wych yn Gymraeg gyda chwpl o Gaernarfon. Roedden nhw wedi gweld fy nghrys-T beicio Cymraeg gyda'r ddraig goch!

Mae'n jôc yn ein teulu ni bod Dad bob tro yn dod o hyd i rywun sy'n siarad Cymraeg!

Ed Moncrief, Marchnad Harborough, Lloegr

Geiriau

yn ddiweddar –	explosion
recently	O.C. – A.D.
profiad –	llwybr troed –
experience	footpath
annisgwyl –	copa – summit
unexpected	rhoi benthg –
adfail, adfeilion –	(to) lend
ruin,-s	baner – flag
Rhufeinig – Roman	dod o hyd i – (to)
ffrwydrad –	find

Ed Moncrief
ar gopa
Vesuvius
gyda baner
Cymru



Annwyl lingo newydd,

Wnes i ymdeol yn 2007 ar ôl gweithio llawer o flynyddoedd fel athro ieithoedd tramor yn Lloegr a thramor. Er hynny, yn anffodus, do'n i ddim yn gallu deall iaith fy mamwlad. Felly, penderfynais i gymryd y cyfle cyntaf i ddysgu'r iaith, a hynny yng Nghaergrawnt, lle dw i'n byw nawr.

Dw i'n dysgu Cymraeg ers blwyddyn a hanner, mewn cwrs U3A – sefydliad ardderchog ar gyfer pobl sy wedi ymdeol. Dyn ni'n dysgu darllen Cymraeg drwy ddefnyddio 'Ffenestri' – llyfr gwych gan Lois Arnold.

Ar ddiwedd y llyfr, mae cerdd ddoniol roedden ni'n ei hoffi'n fawr – 'Gwlad y

Gân'. Mae strwythur syml iawn i'r gerdd. Felly, penderfynodd rhai ohonon ni gopio'r strwythur ac ysgrifennu ein cerdd ein hunain.

Roedd ysgrifennu'r gerdd (fy ngerdd gyntaf!) yn brofiad diddorol iawn – ac yn llawer o hwyl. Ar y dechrau, ro'n i eisiau ysgrifennu am atgofion o fy nghartref a fy nyddiau ysgol, ond, am reswm dw i ddim yn gallu ei esbonio, newidiodd y gerdd a dechreuais i ysgrifennu am rywbeth arall. Rhyfedd sut mae'r isymwbybod yn gweithio!

Dyma'r gerdd a ysgrifennais. Gobeithio byddwch chi'n ei chael hi'n ddiddorol.

Cofion

Mansel Bunford, Caergrawnt

Y Byd Arall

Sŵn y glaw

Sŵn y glaw

Ar fore oer yn y gaeaf

Sain llais fy mam i

Yn deffro fi o gwsg

Blas y cig moch

Wedi ffrio gan fy nhad

Cyffro'r plant

Yn aros am y trêrn

Arogl y trêrn

Sy'n cario fi i'r ysgol

Cân foreol

Sy'n dathlu ein dydd newydd ni

Sŵn y glaw

Ar ffenest y gegin

Syrffed dydd Sul

Yn dysgu Lladin

Golygfa'r glaw

Yn drifftio i lawr y cwm

Cân y radio

Yn sôn am fyd arall

Atgofion o'r Barri

Yn ystod y gwyliau

Diwrnodau hapus

Yn pysgota yn y bae

...

Sŵn y glaw

Sŵn y glaw

Ar do ein hysgol

Sŵn y mynydd

Yn symud, yn symud

Sŵn y plant

Yn canu, heb wybod

Sŵn y gweiddi

Gweiddi'r plant

Lleisiau'r pwerus

Yn esbonio, yn esbonio

Lleisiau'r euog

Yn esgus, yn esgus

A nawr

Yn fy nyffryn tawel a hardd.

Dim ond

Tawelwch eu galar

Gwynder y cerrig beddau

Ŵyn gwyn ar y bryn

A gallaf weld yn y pellter

Yr eira ar Ben y Fan

Geiriau

er hynny – despite	isymwbybod –
that	subconscious
Caergrawnt –	sain – sound
Cambridge	boreol – morning
sefydliad –	syrffed – boredom
establishment	euog – guilty
strwythur – structure	dyffryn – valley
atgof,-ion – memory,	galar – grief
memories	bedd,-au – grave-s

Dysgu mwy am y Mabinogi

Dych chi'n gwybod am storïau'r Mabinogi? Dych chi isie gwybod mwy? Mae **Trafferth** yn sioe newydd i ddysgwyr am y Mabinogi.

Mae cwmni theatr o'r enw Mewn Cymeriad yn gwneud y sioe ac mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi comisiynu'r sioe. Mae **Trafferth** ar daith drwy Gymru. Bydd dysgwyr o bob ardal yn gallu gweld y sioe.

Yma, mae Hawys Roberts yn ateb cwestiynau **lingo newydd**.

Am beth mae'r sioe?

Prif thema'r sioe ydy Pedair Cainc y Mabinogi. Os byddwch chi'n mynd i weld sioe **Trafferth** byddwch chi'n dod i wybod mwy am gymeriadau fel Blodeuwedd, Bendigeidfran, Pwyll, Rhiannon a Branwen. Mae'r storïau'n gyffrous dros ben. Mae hi'n sioe fywiog, llawn hwyl ac mae cyfle i chi fod yn rhan o'r perfformiad hefyd.

Pam mae'r Mabinogi mor arbennig?

Mae Pedair Cainc y Mabinogi yn arbennig achos maen nhw'n hen, hen chwedlau. Maen nhw'n rhan bwysig iawn o lenyddiaeth Cymru.

Pwy sy yn y sioe?

Y bardd, Aneirin Karadog, sy wedi ysgrifennu **Trafferth** – a bardd arall ydy'r prif gymeriad – Dafydd ap Gwilym. Mae e'n cyflwyno'r storïau.

Mae e'n darllen ei farddoniaeth ei hun hefyd ac yn gwneud i bobl chwervin ar hyd y ffordd.

Roedd Dafydd ap Gwilym yn fardd poblogaidd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Roedd e'n gymeriad lliwgar ac roedd e'n hoffi sôn am ei deimladau. Mae llawer o'i gerddi am fenywod!

Beth sy'n digwydd yn y sioe?

Dyma beth mae Aneirin Karadog yn ddweud: "Dyn ni'n dilyn taith Dafydd ap Gwilym o Geredigion i Fasaieg, yng Ngwent. Roedd Dafydd yn dianc o Geredigion – roedd e wedi bod yn bihafio'n wael gyda menywod ardal Llanbadarn!"

Mae Aneirin yn gobeithio am ddau beth – bod pawb yn mwynhau a



chwervin a bod pobl isie gwybod mwy am farddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg ar ôl gwyllo **Trafferth**.

Ar gyfer pwy mae'r sioe?

Mae'r sioe ar gyfer pobl o bob oed, ac ar gyfer dysgwyr lefel Canolradd ac Uwch.

Ble mae'r sioe yn cael ei pherfformio?

I gael mwy o wybodaeth am y sioe, neu os dych chi isie mynd i weld y sioe yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch darparwr Dysgu Cymraeg lleol:

www.dysgucymraeg.cymru, neu ffoniwch y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar 0300 323 4324.

Geiriau

ar daith – *on tour*
cymeriad – *character*
cyfle – *opportunity*
rhan – *part*
chwedl,-au – *legend,-s*
llynyddiaeth – *literature*
canrif – *century*
barddoniaeth – *poetry*

poblogaidd – *popular*
sôn am – *(to) talk about*
cerdd,-i – *poem,-s*
menywod = merched – *women*
dianc – *(to) escape*
darparwr – *provider*

Dyma'r sioe Trafferth

Sioe newydd i ddysgwyr ydy **Trafferth**.

Mae'n ffordd dda o ddysgu am storïau'r Mabinogi. Yn y sioe, dych chi'n dysgu am ddewin yn gwneud merch o flodau, am gawr yn cerdded drwy'r môr ac am gariad a pherygl.

Y bardd Dafydd ap Gwilym ydy prif gymeriad y sioe – mae e'n cyflwyno'r storïau.

Mae teitl y sioe yn dod o deitl un o gerddi Dafydd, 'Trafferth mewn Tafarn'.

Mae **Trafferth** ar daith drwy Gymru.

Geiriau

dewin – *wizard, magician*
cawr – *giant*
perygl – *danger*
bardd – *poet*
prif gymeriad – *main character*
cyflwyno – *(to) present*
ar daith – *on tour*

Dych chi'n hoffi casglu llestri? Mae John Rees yn arbenigwr ar hen bethau. Yma, mae e'n edrych ar hanes Crochendy Ewenni...

Un crochendy - saith cenhedlaeth

Colofn
newydd
- Trysorau
Cymru

Mae hanes hir o wneud llestri mewn crochendai yng Nghymru. Y crochendy hyna sy'n dal i weithio ydy crochendy Ewenni. Mae'n mynd ers 1610 ac, ers y 1800au, mae'r crochendy wedi bod yn nwylo un teulu – teulu Jenkins.

Mae'n bosib gweld crochenwaith o'r crochendy yma mewn llawer o gartrefi.

Mae pentref Ewenni yn Ne Cymru, ger tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Dros 500 mlynedd yn ôl roedd sawl crochendy yn yr ardal yn gwneud llestri. Mae'n lle da i gael clai a cherrig i adeiladu odyn.

Lliwiau llachar

Roedd Ewenni yn gwneud llestri defnyddiol ond roedden nhw'n gwneud llestri mewn siapiau diddorol a lliwiau eitha llachar – melyn, glas a gwyrdd – hefyd. Mae llawer o bobl yn casglu'r darnau lliwgar yma. Mae llestri Ewenni yn enwog am y gwydredd, neu'r glaze, arbennig arny'n nhw.

Yn gynnar yn y 1900au, dyfeisiodd David John Jenkins wydredd arbennig. Mae un math o wydredd yn mynd dros y darn cyfan, yna 'sblash' o wydredd mewn lliw arall yn

mynd ar ei ben i greu steil unigryw. Mae'r smotiau'n enwog hefyd. Beth ydy'ch barn chi?



Geiriau

crochendy,	dishes etc.)
crochendai	Pen-y-bont ar Ogwr
- pottery, potteries	- Bridgend
(i.e. where pots are made)	clai – clay
cenhedlaeth – generation	carreg, cerrig – stone,-s
odyn – kiln	llachar – bright
hyna – oldest	dyfeisio – (to) invent
dal i weithio – still working	unigryw – unique
crochenwaith – pottery (i.e. pots,	smoty'n, smotiau
	- spot,-s



Gobled gwin Ewenni

Crochenwaith Ewenni

Mae crochendy Ewenni yn gwneud crochenwaith ers 1610.

Mae'r crochendy ger Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r crochendy'n enwog am wneud llestri lliwgar.

Maen nhw'n enwog am wneud ffigurau o anifeiliaid fel cathod a moch hefyd.

Roedd pobl leol a thwrystiaid yn hoffi crochenwaith Ewenni.

Mae llawer o bobl yn dal i gasglu'r crochenwaith heddiw.

Mae rhai darnau'n werthfawr iawn.

Geiriau

crochenwaith
- pottery (i.e. pots, dishes etc.)
crochendy, crochendai – pottery, potteries (i.e. where pots are made)
Pen-y-bont ar Ogwr – Bridgend
dal i gasglu ... still collect
gwerthfawr – valuable

Ewenni'n dod yn enwog

Daeth gwaith crochendy Ewenni yn boblogaidd gyda phobl leol a hefyd gyda thwrystiaid oedd yn dechrau dod i'r ardal.

Dw i'n dod o dref Maesteg, sy'n agos i Ewenni. Roedd o leiaf un darn o waith y crochendy ym mhob tŷ yn y dre, meddai Mam-gu.

Fel sawl crochendy arall, roedd Ewenni'n gwneud darnau i gofio am ddigwyddiad arbennig, fel mygiau'r teulu brenhinol – ac eisteddfodau hefyd.

Yn ogystal â llestri pob dydd roedd Ewenni yn gwneud ffigurau o anifeiliaid. Mochyn oedd un o'r rhai cynnar. Mae'r



rhain yn werthfawr iawn.

Ond yr anifail sy'n cael ei gysylltu gyda'r cwmni ydy'r gath. Ar un adeg, roedd modelau o gathod Ewenni ar simnai'r crochendy.

Yn 2019, mae'r seithfed genedlhaeth o deulu Jenkins yn gwneud crochenwaith yn Ewenni. Maen nhw'n dal i wneud y pethau traddodiadol ond mae sawl peth modern hefyd, fel lampau. Mae gen i gobledi gwin – dw i'n hoff iawn o'r rhain.

Geiriau

simnai – chimney
cenhedlaeth – generation

Mae **lingo newydd** yn gofyn i bobl beth maen nhw'n hoffi. Y tro yma, mae Hannah Daniel yn ateb ein cwestiynau ni. Mae hi'n actio o Gaerdydd. Mae hi'n action yn y gyfres **Un Bore Mercher** ar S4C.

Hannah Daniel Dw i'n hoffi...

Hannah, beth ydy ...?

... dy hoff ffilm

Nuts In May – comedi gan Mike Leigh. Mae un o fy hoff actoresau, Alison Steadman, yn y ffilm. Dw i'n cofio gwyllo'r ffilm pan o'n i yn fy ardegau cynnar. Ro'n i wrth fy modd. Do'n i ddim yn gallu credu bod yr actorion yn adlibio drwy'r holl beth. Anhygoel!

... dy hoff lyfr

A Confederacy of Dunces gan John Kennedy Toole. Wnes i ddarllen y llyfr pan o'n i yn fy mlwyddyn gynta yn y brifysgol. Mae e'n ddoniol, yn dorcalonnus, yn ddifyr. Dw i'n dal i ddweud wrth bobl am ddarllen y llyfr.

... dy hoff siop


Siop ddillad yng Nghaerdydd o'r enw Kiti. Fy ffrind, Gwenno, ydy'r perchennog. Mae gan Gwenno lygad barcud am ddillad da. Dw i'n treulio llawer gormod o amser yno!

... dy hoff ffordd o ymlacio

Cael noson ar fy mhen fy hun yn fy fflat, mynd i ioga poeth, cael bath a gorwedd ar y sofffa yn gwyllo Netflix... neu fynd allan i ddawnsio gyda fy hoff bobl!

... dy hoff ddillad

Fy het newydd – *bucket hat* mewn print llewpard! Dw i'n mynd i wisgo'r het gyda phopeth am weddill fy mywyd!



... dy hoff fwyd

Bwyd Fietnamaidd – mae bwyty tua deg munud o fy fflat i. Maen nhw'n gwneud Pho Cyw lâr anhygoel.



... dy hoff olygfa

Mae gan Mam-gu fwthyn bach yn Nhrefdraeth, yn Sir Benfro. Dyn ni'n mynd yno ers pan oedden ni'n blant bach. Dw i wrth fy modd gyda'r olygfa tua'r môr o'r ardd gefn.



... dy hoff wyliau

Dw i'n dwlu mynd ar wyliau. Dw i newydd ddod 'nôl o Valencia [yn Sbaen] gyda fy ffrindiau gorau. Roedden ni'n dathlu bod dau o'n ffrindiau yn priodi ym mis Mehefin. Rhyw fath o *stag do*. Wnaethon ni ddim stopio chwerthin drwy'r penwythnos.



Geiriau

- adlibio – (to) ad-lib
- yr holl beth – the whole thing
- torcalonnus – heartbreaking
- difyr – entertaining
- dal – still
- perchennog – owner
- llygad barcud – keen eye
- llewpard – leopard
- gweddill – remainder, rest
- golygfa – view
- Trefdraeth – Newport (Pembs)
- dw i'n dwlu = dw i wrth fy modd
- I love
- rhyw fath o – some kind of

Un Bore Mercher, Nos Sul, 9yh, S4C



Dyma Hannah

Actores ydy Hannah Daniel. Mae hi'n byw yng Nghaerdydd.

Mae hi'n brysur. Mae hi'n actio mewn cyfresi teledu fel **Y Gwyll** a **Holby City**.

Mae Hannah yn y gyfres ddrama **Un Bore Mercher** ar S4C.

Mae hi'n actio'r cymeriad Cerys Jones. Cyfreithwraig ydy Cerys Jones.

Yn y gyfres, mae hi'n dod yn ffrindiau da gyda'r prif gymeriad, Faith Howells. Mae Eve Myles yn actio Faith Howells.

Geiriau

- cyfres,-i – series
- cymeriad – character
- cyfreithwraig – solicitor (fem.)
- prif – main

Mae llawer o brotestiadau newid hinsawdd yn digwydd ac mae pobl o Gymru yn y protestiadau.

Protestio i achub y byd!

Roedd llawer o brotestiadau mewn sawl dinas yng ngwledydd Prydain y gwanwyn yma. Protestiadau i geisio achub y byd!

Mae pobl yn poeni am yr amgylchedd a newid hinsawdd. Mae hi'n "argyfwng", meddai'r protestwyr. Maen nhw'n galw ar lywodraethau'r byd i wneud rhywbeth ar frys.

Roedd y rhan fwy o'r protestiadau newid hinsawdd yn Llundain ond roedd rhai yng Nghymru hefyd. Roedden nhw'n achosi llawer o broblemau mewn dinasoedd fel Llundain a Chaerdydd. Roedd ffyrdd wedi cau a phroblemau ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ond roedd gan y protestwyr Gwrthryfel Difodiant (Extinction Rebellion XR) esboniad. Maen nhw'n dweud: "Rhaid i ni gynnal protest er mwyn dyfodol y byd."

Mae Staci Sylvan yn byw yn Llangydeyrn, ger Caerfyrddin. Mae hi'n aelod o gangen XR De-orllewin Cymru. Mae'n rhaid i'r grŵp brotestio, meddai hi.

"Dyma'r unig dro mae pobl wedi talu sylw," meddai. "Roedd rhaid i ni wneud rhywbeth hollol bryfoclyd."

"Mae pawb yn canolbwyntio ar Brexit. Does neb yn siarad am y broblem enfawr yma."

Dych chi'n meddwl bod gormod o sylw i Brexit a dim digon o sylw i broblemau'r blaned? Oes 'na argyfwng? Neu ydy pobl yn codi ofn arnon ni heb angen?

Geiriau

newid hinsawdd – *climate change*
 achub – *(to) save*
 amgylchedd – *environment*
 argyfwng – *crisis, emergency*
 ar frys – *urgently*
 achosi – *(to) cause*
 trafnidiaeth gyhoeddus – *public transport*
 cangen – *branch*
 esboniad – *explanation*
 yr unig dro – *the only time*
 talu sylw – *(to) pay attention*
 pryfoclyd – *provocative*
 codi ofn ar – *(to) frighten*



"Heddychlon"

Roedd tua 60 aelod o gangen XR De Orllewin Cymru yn protestio yn Llundain. Cafodd 40 ohonyn nhw eu harestio. Cafodd mwy na 1,000 o bobl eu harestio yn y protestiadau yn Llundain.

Roedd y protestiadau'n heddychlon, meddai Staci Sylvan.

"Dydyn ni ddim yn gweiddi ar bobl eraill nac yn eu beio nhw am bethau. Dydyn ni ddim yn ymosodol tuag at yr heddlu."

Bywyd gwyllt yn "diflannu"

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cyhoeddi adroddiad am fywyd gwyllt. Mae'r adroddiad wedi cymryd tair blynedd i'w ysgrifennu.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gan tua 450 o wyddonwyr ar draws y byd. Dyma eu rhybudd nhw – mae bywyd gwyllt yn diflannu. Mae hyn yn ddrwg i fyd natur ... ac i ni.

Dyma rybudd y Cenhedloedd Unedig – mae tua miliwn o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid mewn perygl o ddiflannu o fewn degawdau.

Mae hyn yn fgythiad i bobl hefyd, medden nhw. Mae'n effeithio ar economi, bywoliaeth, bwyd, iechyd a safon byw ar draws y byd. Mae angen gwneud newidiadau mawr, medden nhw.

"Argyfwng hinsawdd"

Mae Llywodraeth Cymru a rhai cynghorau wedi cyhoeddi "argyfwng hinsawdd". Mae llywodraethau'r Alban a'r Deyrnas Unedig yn dweud bod "argyfwng hinsawdd" hefyd.

Mae hyn yn rhoi "neges glir" meddai Gweinidog yr Amgylchedd, Lesley Griffiths – dydyn nhw ddim eisiau gadael i Brexit dynnu sylw oddi ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'r argyfwng yn "bygwth ein hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol," meddai hi.

Bydd y cyhoeddiad yn annog pobl i wneud rhywbeth ar frys yng Nghymru ac ar draws y byd – dyna obaith Lesley Griffiths.

Geiriau

heddychlon – *peaceful*
 ymosodol – *aggressive*
 y Cenhedloedd Unedig – *the United Nations*
 adroddiad – *report*
 rhybudd – *warning*
 rywogaeth, -au – *species*
 degawd, -au – *decade, -s*
 bygythiad – *threat*
 cyhoeddi – *(to) declare*
 argyfwng hinsawdd – *climate emergency*
 bygwth – *(to) threaten*
 seilwaith – *infrastructure*
 cyhoeddiad – *declaration*

**Beth dych chi'n wneud i helpu'r blaned?
 Beth ddylai'r Llywodraeth wneud?**



Dyma'r protestiadau newid hinsawdd

Mae cannoedd o bobl yn protestio am newid hinsawdd.

Mae protestiadau mawr yn Llundain a phrotestiadau mewn dinasoedd eraill ac yng Nghymru.

Mae'r protestiadau'n achosi llawer o broblemau. Mae'r protestwyr yn cau ffyrdd ac yn rhwystro trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae merch ifanc o Sweden yn cael llawer o sylw. Mae Greta Thunberg yn 16 oed ac mae hi'n siarad gyda llywodraethau.

Mae llawer o blant ysgol yn cynnal streiciau newid hinsawdd hefyd – gan gynnwys plant yng Nghymru.

Mae Llywodraethau Cymru, yr Alban a'r Deyrnas Unedig yn dweud: "Mae 'na argyfwng newid hinsawdd".

Rhaid gwneud mwy na siarad, meddai Cyfeillion y Ddaear Cymru. Mae angen gwneud rhywbeth ar frys, medden nhw.

Geiriau

- newid hinsawdd – *climate change*
- achosi – *(to) cause*
- ffordd, ffyrdd – *road,-s*
- rhwystro – *(to) obstruct*
- trafnidiaeth gyhoeddus – *public transport*
- llywodraeth,-au – *government,-s*
- cynnal – *(to) hold*
- gan gynnwys – *including*
- y Deyrnas Unedig – *the United Kingdom*
- argyfwng – *crisis, emergency*
- diflannu – *(to) disappear*
- Cyfeillion y Ddaear – *Friends of the Earth*
- ar frys – *urgently*

"Dihuno"

Mae'r cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru, yr Alban a'r Deyrnas Unedig yn dangos rhywbeth pwysig, meddai Cyfeillion y Ddaear Cymru – mae llywodraethau yn dechrau "dihuno" a sylweddoli maint y broblem.

Ond dydy hyn ddim yn ddigon, yn ôl Bleddyn Lake o Gyfeillion y Ddaear Cymru. "Mae'r blaned angen ymateb brys, nid dim ond cyhoeddi argyfwng," meddai e.

Mae adroddiad y Cenhedloedd Unedig am gollu rhywogaethau yn "codi ofn", meddai. "Rhaid gwneud rhywbeth ar frys.

"Mae'n rhaid i ni edrych ar ein ffordd o fyw. Mae'n rhaid i ni fod yn barod i wneud newidiadau fel cynhyrchu llai o gig a chynnyrch llaeth. Mae angen defnyddio cwmnïau sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy. Mae angen teithio llai mewn awyrennau, a dewis cerdded cymaint â phosib."

Nid mater i weddill y byd ydy hyn, meddai Bleddyn Lake.

"Mae ein bywyd gwyllt ni yng Nghymru dan fygythiad hefyd. Mae'n rhaid meddwl am newid hinsawdd wrth wneud penderfyniadau.

"Er enghraifft, mae ffordd liniaru'r M4 yn bygwth bywyd gwyllt cyfoethog yng Ngwastadeddau Gwent.

"Os ydy Llywodraeth Cymru o ddirif am daclo'r argyfwng hinsawdd, mae'n rhaid iddyn

nhw anghofio am gynlluniau i adeiladu'r ffordd yma."

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater yma ar hyn o bryd. Dyn ni'n disgwyl cyhoeddiad ym mis Mehefin.

Dych chi o blaid 'M4 newydd' ... neu ydy ffyrdd newydd yn creu mwy o draffig? Ydy ffordd newydd yn hen ateb i broblem newydd neu ydy ffordd newydd yn bwysig i'r economi?

Geiriau

- dihuno = *deffro – (to) awake*
- yn ôl – *according to*
- ymateb – *response*
- Cyfeillion y Ddaear – *Friends of the Earth*
- sylweddoli – *(to) realize*
- cyhoeddi – *(to) announce*
- cynhyrchu – *(to) produce*
- ynni – *energy*
- adnewyddadwy – *renewable*
- gweiddill y byd – *the rest of the world*
- ffordd liniaru – *relief road*
- Gwastadeddau Gwent – *Gwent Levels*



Blwyddyn Darganfod ydy 2019 yng Nghymru. Mae **lingo newydd** yn trio'ch helpu chi i ddod o hyd i lefydd newydd yng Nghymru. Y tro yma, mae'r ffotograffydd Dylan Arnold yn rhoi awgrymiadau.

Gweithiau Brics Porthwen, yng ngogledd Ynys Môn



Crwydro efo camera

Dach chi'n hoffi tynnu lluniau? Dach chi'n hoffi crwydro? Mae Dylan Arnold yn ffotograffydd sy'n hoffi crwydro.

Mae Dylan yn gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd, yn tynnu lluniau o lygaid pobl. Yn yn ei amser sbâr, mae o'n hoffi tynnu lluniau o'r wlad.

Mae Dylan wedi dechrau prosiect ei hun – Cymru Cudd. Mae o'n tynnu lluniau o lefydd fel hen gapeli, bythynnod a melinau gwlan, llefydd mae pobl yn anghofio amdany'n nhw yn aml iawn. Dydy o ddim yn hoffi dweud lle maen nhw rhag ofn bydd rhywun yn eu fandaleiddio nhw.

“Mae'r rhan fwya o'r llefydd yn ddirgel – dw i'n chwilio am rai a dw i'n dod ar draws rhai drwy hap a damwain. Dw i ddim yn hanesydd ond mae'r straeon am y llefydd yma yn ddi-ddorol: Pwy oedd yn bwy yno? Beth ddigwyddodd iddyn nhw? Beth welodd y waliau?”

Un tro, daeth Dylan Arnold o hyd i hen gaban pren yng nghefn gwlad. Roedd ffrind o Loegr wedi dangos y caban i Dylan.

“Ei hen fodryb oedd piau'r lle, ond aeth hi'n hen ac anghofio am y caban. Ar y lle tân, wnes i ddod o hyd i hen lun du a gwyn o ddau ddyn.

Dw i ddim yn gwybod pwy ydy'r dynion yn y llun ond, i fi, mae'r cyfan yn ychwanegu at stori'r lle.”

Daeth o o hyd i hen felin wlan yn y Canolbarth sy wedi cau.

“Roedd hi'n anhygoel. Roedd hi'n edrych fel tasai'r gweithwyr jest wedi *down tools* a cherdded allan. Roedd gwlan ar y fframiau gwau o hyd, roedd tŵls ar y byrddau ac roedd llawer o hen Feibla, llyfrau Cymraeg a dyddiadur bach yno. Mae'r manylion bach yma yn gwneud y llefydd yma'n fyw i mi.”

Ydy, mae Dylan wrth ei fodd yn dod o hyd i lefydd dirgel.

Mae Dylan bob amser yn gofyn am ganiatâd y perchennog cyn tynnu lluniau os ydy o'n gallu, a dydy o byth yn tresbasu.

“Mae hi bob amser yn bwysig parchu'r llefydd 'ma. Weithiau, dw i'n gwybod dim byd am y lle a dw i'n tynnu lluniau ac ateb cwestiynau wedyn.

“Ond be' sy'n grêt am y prosiect yma – drwy fynd at y bobl, fel arfer maen nhw'n dweud, 'Wyt ti'n gwybod am y lle arall yma?' ac wedyn dw i'n dod o hyd i fwy o lefydd newydd.”

Geiriau

darganfod – (to) discover, discovery	dirgel – secret
lle,-fydd – place,-s	dod ar draws – (to) discover
awgrym,-iadau – suggestion,-s	drwy hap a damwain – by chance
tynnu lluniau – (to) take photographs, (to) draw	dod o hyd i – (to) find
crwydro – (to) wander	oedd piau – owned
cudd – hidden	y cyfan – everything, the whole lot
melin,-au – mill,-s	ffrâm wau, fframiau gwau – loom,-s
gwlan – wool, woollen	caniatâd – permission
fandaleiddio – (to) vandalize	tresbasu – (to) trespass
	parchu – (to) respect



Melin Rhuthun



Cadw cyfrinach

Dro arall, aeth Dylan Arnold i mewn i ffermdy yn Ynys Môn a darganfod bod popeth wedi'i adael fel roedd o'n wreiddiol – llestri ar y bwrdd, ffedog yn hongian ar y drws a'r dodrefn i gyd yno. Mae o'n credu bod y lle wedi bod yn wag ers y 1970au.

“Weithiau, mae'n grêt clywed yr hanesion am y llefydd yma ond weithiau mae'n hyfryd peidio, achos mae 'na ddirgelwch iddyn nhw,” meddai Dylan.

Mae Dylan wrth ei fodd yn gwneud y prosiect Cymru Cudd.

“Dyma'r peth gorau dw i wedi'i wneud – mae'r ymchwil i'r llefydd 'ma a chlywed amdany'n nhw wedi bod yn grêt. Dw i fel plentyn bach yn mynd ar antur gyda thomen o fapiau dan fy nghesail a byth yn gwybod be' dw i'n mynd i ffeindio. Mae'n gip ar gefn gwlad Cymru.”

Ond mae o'n poeni hefyd – ydy'r llefydd hyn yn mynd i ddiplannu?

“Lle mae 'na bres mae'r hanes yn cael ei gadw, fel llefydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ond mae hanes y werin bobl yn pydru mewn caeau. Un gaea' caled ac mi fydd hi wedi canu ar rai o'r adeiladau yma.

“Dw i'n trio cadw *snapshot* ohonyn nhw ac mi fydd y prosiect yma'n dal i fynd tan dw i'n rhy hen i gario camera!”



Eglwys Rhosbeirio, Ynys mon

Geiriau

oedd wedi adfeilio – <i>ruined</i>	tomen – <i>heap</i> cesail – <i>armbit</i>
adfail, adfeilion – <i>ruin,-s</i>	cip – <i>glance</i>
mynwent – <i>cemetery</i>	yr Ymddiriedolaeth
gweddw – <i>widow</i>	Genedlaethol – <i>the</i>
goroesi – <i>(to) survive</i>	National Trust
trawsnewid – <i>(to)</i> <i>transform</i>	pydru – <i>(to) rot</i>
ffedog – <i>apron</i>	mi fydd hi wedi canu
dirgelwch – <i>mystery</i>	ar – <i>it will be the</i> <i>end of</i>

Dyma Dylan

Mae Dylan yn ffotograffydd yn ei amser sbâr.

Mae o'n byw yn Llanrug ger Caernarfon.

Mae o'n gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd. Ffotograffydd ophthalmig ydy o. Mae o'n tynnu lluniau o lygaid pobl.

Ond, yn ei amser sbâr, mae o'n tynnu lluniau o hen adeiladau.

Mae o'n tynnu lluniau o hen gapeli, bythynnod, ffatrioedd a melinau gwlan.

Mae gan Dylan ddau o blant. Mae Twm yn 4 oed ac mae Elis yn 7 oed. Mae Elis wedi cael hen gamera gan ei dad ac mae o'n hoffi tynnu lluniau hefyd.

Mae Twm ac Elis yn hoffi mynd efo Dylan i ffeindio llefydd newydd.

Geiriau

Gwasanaeth Iechyd – <i>Health Service</i>
tynnu lluniau – <i>(to) take photographs</i>
bwthyn, bythynnod – <i>cottage,-s</i>
melin,-au – <i>mill,-s</i>
gwlan – <i>wool, woollen</i>
lle,-fydd – <i>place,-s</i>
arddangosfa – <i>exhibition</i>

Mae arddangosfa o waith Dylan Arnold yn Storiell, Bangor, ym mis Medi.

Mwy na cherrig – hen fwthyn

Unwaith, arweiniodd llun o goeden wrth ochr hen fwthyn oedd wedi adfeilio at sgwrs efo dynes 85 oed o Ddeiniolen, ger yr Wyddfa. Roedd hi'n arfer byw yn y bwthyn, meddai Dylan.

“Ro'n i'n chwilio am hen fynwent ond pan es i dros y bryn, gwelais i ryw hen adfail. Doedd dim byd arbennig am yr adfail ond ro'n i licio'r goeden o'i flaen o. Roedd siâp y goeden yn fframio'r lle.

“Dyma ddynes yn gweld y llun a dweud, ‘Ces i fy magu yn fan'na’. Es i draw i gael sgwrs efo hi. Roedd hi wedi cael ei magu yn yr



Tan y Marchlyn, Deiniolen

hen fwthyn. Roedd ei mam yn weddw gydag wyth o blant. Ces i straeon gwych gynni hi am sut roedden nhw'n goroesi gaeafau caled a sut roedd y bobl yn y gymuned yn gofalu am ei gilydd.

“Roedd y fam a'r pedair merch yn cysgu mewn un

gwely a'r pedwar bachgen mewn gwely arall.

“Ar ôl i fi siarad efo hi ro'n i'n gwybod be' oedd stori'r lle – mae hyn wedi trawsnewid y llun i fod yn rhywbeth hollol wahanol. Mae hen adfeilion yn llawer mwy na lymphiau o gerrig.”

Mae dau deulu o ffermwyr yn mynd â chig yr holl ffordd o'r cae i'r gegin – ac mae un o'u plant nhw'n mynd â defaid am dro!

Blas y mynydd

Mae Tesni a Dafydd Wyn Jones a'u ffrindiau, Megan a Dewi William, yn ffermio yn Nhrawsfynydd, yn Eryri.

Maen nhw'n gymdogion ac yn bartneriaid busnes hefyd. Maen nhw'n magu anifeiliaid ac yn gwerthu cig. Enw eu busnes ydy Cig Eryri.

Dach chi'n hoffi bwyta cig oen a chig eidion? Dach chi'n hoffi cig oen a chig eidion o Gymru? Wel, mae “blas y mynydd” ar eu cig nhw, meddai Cig Eryri.

Mae'r pedwar yn ffermio ers blynyddoedd. Y peth newydd ydy'r lladd-dy. Erbyn hyn, maen nhw'n rhedeg lladd-dy ardal Trawsfynydd.

Rŵan, mae Cig Eryri yn gwneud popeth – o fagu'r anifeiliaid i baratoi'r cig. Popeth o'r cae i'r gegin.

Geiriau

blas – flavour, taste	magu – (to) rear, breed
mynd â – (to) take	ers blynyddoedd – for years
yr holl ffordd – all the way	lladd-dy – abattoir
cymydog, cymdogion – neighbour,-s	erbyn hyn – by now



Achub y lladd-dy

Mae lladd-dy Cae Iago rhwng Trawsfynydd a Blaenau Ffestiniog. Ond, y Nadolig diwetha, daeth newyddion drwg.

Roedd Evan Roberts, perchennog y lladd-dy, yn ymddeol. Roedd hyn yn broblem i ffermwyr lleol. Mae'r ddau ladd-dy agosa yn bell i ffwrdd.

Dyma Tesni Jones yn dweud beth ddigwyddodd wedyn ...

“Roedden ni'n gwerthu bocys cig oen ers rhai blynyddoedd ac felly dyma Evan yn gofyn ‘Dach chi isio lladd-dy?’

“Mi wnaethon ni siarad efo Dewi a Megan. Roedd gan Dewi ddiddordeb ers blynyddoedd – roedden ni'n gwybod hynny. Mi wnaethon ni drafod y peth a phenderfynu mynd amdani.

“Roedden ni'n meddwl ei bod hi'n biti bod y lladd-dy'n cau. Mae o mor hwylus i ni. Dan ni'n cynnig gwasanaeth i ffermwyr eraill hefyd os ydyn nhw isio dod aton ni.

“Mae'n golygu ein bod ni'n gallu torri'r middle man allan a lladd a phrosesu ŵyn ein hunain.

“Dan ni'n gobeithio gwerthu ychydig o'n cig ni ar-lein rŵan ac mewn siopau lleol yn y dyfodol.

“Mae'n hollol leol. Dydy'r ŵyn ddim yn teithio am oriau, maen nhw'n mynd i'r lladd-dy yn syth – ac mae'r cig yn cael ei werthu'n lleol.”

Geiriau

achub – (to) save
perchennog – owner
mor hwylus – so convenient
cynnig – (to) offer

Cig mewn gwllân

Mae popeth yn lleol, felly mae'r ôl troed carbon yn fach ond mae Tesni isio mynd gam ymhellach.

Mae hi'n postio'r cig at gwsmeriaid sy'n prynu ar-lein a, rŵan, mae hi isio defnyddio bocys arbennig sy'n defnyddio gwllân i'w hinswleiddio.

Mae Tesni'n egluro'r syniad: “Os oes rhywun yn ordro cig, dw i'n gallu ei bostio fo atyn nhw. Dw i'n rhoi amlen yn y bocys ac maen nhw'n gallu anfon y gwllân yn ôl aton ni.

“Dach chi'n medru defnyddio'r gwllân hyd at 10 gwaith. Mae'n ffordd dda o ailgylchu.”

Geiriau

gam ymhellach – a step further
gwllân – wool
hyd at – up to
ailgylchu – (to) recycle

Teulu

Mae gweithio efo'u cymdogion, Dewi a Megan, yn help mawr, meddai Tesni: “Dydy'r gwaith ddim ar ysgwyddau un person.”

Maen pawb yn helpu yn y lladd-dy. Mae Dafydd a Dewi yn dysgu am y busnes ac mae Evan yn eu helpu nhw.

“Mae'r broses i gyd yn gyflym iawn. Dydy'r ŵyn ddim yn mynd i deimlo dan bwysau. Mae strês yn gallu effeithio ar ansawdd y cig.”

Geiriau

ysgwydd,-au – shoulder,-s
teimlo dan bwysau – stressed





cigeryri.cymru
Llwybrau Defaid Eryri –
sheepwalksnowdonia.wales

Mynd â'r ddafad am dro

Mae gan Tesni a Dafydd bedwar o blant rhwng 3 a 16 oed. Mae gan Dewi a Megan ddau o blant yn eu harddegau.

Mae gan Tesni fenter arall efo'i merch hyna, Lois. Enw'r fenter ydy Llwybrau Defaid Eryri. Mae'r fenter yn rhoi cyfle i bobl fynd â defaid pedigri Zwartbles am dro ar dennyn – fel ci!

Syniad Lois oedd hwn, meddai Tesni. Ar ôl gweld rhaglen am fynd ag alpacas am dro, dwedodd hi, 'Dan ni'n gallu gwneud hynna efo'r Zwartbles'.

Rŵan ...

"Mae pobl yn dod yma am y dydd ac yn mynd â'r defaid am dro ar dennyn rownd y caeau ac ar hyd y llyn. Maen nhw'n cerdded am tuag awr a hanner i gyd. Dan ni mewn lle braf ac mae hynna'n help. Mae pobl wrth eu bodd. Dydy llawer o bobl ddim yn cael cysylltiad efo anifeiliaid ac maen nhw wrth eu bodd yn dod yma i'w gweld nhw.

"Dan ni'n dangos y defaid yma mewn sioeau. Maen nhw'n arfer cerdded ar dennyn." Maen nhw'n wahanol i'r defaid diadell."

Geiriau

yn eu harddegau – in their teens	said
menter – venture	hynna – that
hyna – eldest	ar hyd – along
cyfle – opportunity	llyn – lake
ar dennyn – on a lead	cysylltiad – connection
dwedodd hi – she	arfer – used to
	diadell – flock

Rysâit – cig oen

Mae Tesni yn rhoi rysâit i mewn efo'r cig ac yn dangos sut i dorri coes oen – "Os dach chi'n torri'n groes i'r graen dydy o ddim mor frau."

Dyma un o ryeistiau Tesni:

Coes cig oen wedi'i rhostio gyda mintys

Cynhwysion

- 1 goes o gig oen Cymru
- 2 lwy fwrdd o olew olewydd
- 2 nionyn bach, wedi'u sleisio
- Halen a phapur
- 2 llond llaw fawr o ddail mintys ffres, wedi'u torri'n fras
- 6 llwy fwrdd o finegr gwin gwyn
- 2 lwy fwrdd o siwgr brown

Saws mintys

1 llond llaw fawr o ddail mintys ffres, wedi'u torri'n fras

6 llwy fwrdd o finegr gwin gwyn

1 llwy fwrdd o siwgr brown

Dull

1. Pwyswch y cig oen i weld faint o amser sy angen yn y ffwrn.

Pinc – 25 munud am bob 450g/l pwys a 25 munud ychwanegol.

Brown – 30 munud am bob 450g/ l pwys a 30 munud ychwanegol.

2. Rhowch y cig oen ar fwrdd a gwnewch holltau yn y cig mewn sawl lle.

3. Rhowch haen o ffoil ar waelod tun rhostio mawr. Rhowch yr olew, y nionod, yr halen a'r pupur, y mintys, y finegr a'r siwgr brown yn y tun. Rhowch y cig oen yn y tun a'i rollo i gwmpas i'w orchuddio i gyd. Rhowch rai o'r nionod a'r mintys a'r siwgr i mewn i rai o'r holltau.

4. Rhowch orchudd dros y cig a'i adael i farinadu am ddwy awr yn yr oergell.

5. Tynnwch y cig o'r oergell, rhowch sudd y marinâd drosto, a rhowch y ffoil yn llac iawn o gwmpas gwaelod y cig.

6. Coginiwch y cig am yr amser iawn gan dywallt peth o'r sudd coginio drosto bob hyn a hyn.

7. Ar gyfer y saws mintys, cymysgwch yr holl gynhwysion a'u gadael i sefyll ar dymheredd ystafell am tua 20 munud.

8. Tynnwch y cig oen o'r popty a'i adael i orffwys am tua 15-20 munud cyn ei dorri.

Geiriau

yn groes i'r graen – against the grain
brau – tender

nionyn, nionod = winwnsyn, winwns –
onion, -s

wedi'u torri'n fras – roughly chopped
ychwanegol – extra

hollt,-au – slit,-s

mewn sawl lle – in several places

haen – layer

gorchuddio – (to) cover

gorchudd – cover

yn llac – loosely

tywallt – (to) pour

bob hyn a hyn – every now and then
ar dymheredd ystafell – at room temperature

Mae Gwawr Forsyth yn byw ar y Rifiera.
Mae hi'n nyrs mewn clinic preifat yno.

Dros y Byd



O le dach chi'n dod yn wreiddiol?

Dw i'n dod o bentre Glasfryn, ger Cerrigydrudion, Sir Ddinbych. Ro'n i'n byw ar fferm yno.

Lle dach chi'n byw rŵan?

Dw i'n byw ac yn gweithio yn St Tropez, yn Ne Ffrainc. Dw i'n byw efo fy ngŵr, Ron, ac mae gen i ddwy ferch – Leusa, 21 oed, a Laura, 16 oed. Dw i'n nyrs mewn clinic preifat yno.

Pam St Tropez?

Wnes i benderfynu mynd ar wyliau i Ffrainc yn 1988 efo ffrind. Ro'n i isio aros yno am chwe mis a mwynhau'r ardal. Wnes i gyfarfod efo Ron, sy'n dod o'r Alban, a phenderfynu aros.

Dach chi'n siarad Ffrangeg?

Ces i waith yn y farchnad yn St Tropez yn gwerthu olew olewydd a ffrwyth olewydd. Roedd lot o bobl ar eu gwyliau ond ro'n i'n gorfod siarad efo pobl yr ardal hefyd.

Wnes i edrych ar ôl tripledi i feddyg a'i wraig. Roedd hi'n dysgu Saesneg yn y coleg. Wnes i ddweud, 'Dw i'n fodlon siarad Saesneg efo chi os dach chi'n siarad Ffrangeg efo fi.' Roedd y plant yn helpu hefyd – roedden nhw'n cywiro camgymeriadau!

Oedd symud yn benderfyniad anodd?

Pan dach chi'n ifanc mae'n reit hawdd. Doedd hi ddim yn hawdd symud o Gymru ond roedd dechrau bywyd arall yn eitha hawdd.

Be' dach chi'n hoffi am fyw yn St Tropez?

Mae'r tywydd yn braf. Dan ni'n byw 10 munud o lan y môr – mae lot o weithgareddau fel hwylio, padlfyrddio a hwylyrddio. Dan ni'n cael lot o farbeciws. Mae lot o ffermydd o gwmpas, felly dw i'n gallu mynd i'r fferm i brynu gwin a llysiau a ffrwythau tymhorol. Dydy'r mynyddoedd ddim yn bell. O fewn hanner awr dan ni'n gallu mynd i sgïo.

Pa fath o fwyd dach chi'n mwynhau yn St Tropez?

Mae lot o fwyd môr a llysiau a ffrwythau ffres. Mae pobl Ffrainc yn angerddol am eu bwyd a'u gwin. Mae'n dda i blant achos maen nhw'n eistedd rownd y bwrdd yn siarad efo'r oedolion. Dw i'n licio hynna.

Be' dach chi'n wneud yn eich amser sbâr?

Dw i'n licio mynd i gerdded efo ffrindiau, mynd i nofio, padlfyrddio yn yr haf, a chael ffrindiau draw. Mae Ron yn coginio lot.

Be' dach chi'n golli am Gymru?

Dw i'n colli'r teulu ond mae *facetime* yn helpu. Dw i'n dod adre dair neu bedair gwaith y flwyddyn ac mae'r teulu'n dod draw i aros. Dw i'n colli gweld mynyddoedd Eryri. Bob tro dw i'n dod adre dw i'n methu credu pa mor wyrdd ydy'r caeau!

Mwynhau yn St Tropez

Mae Gwawr Forsyth wrth ei bodd. Mae hi'n byw yn St Tropez.

Mae'r pentre yn enwog am sêr ffilm y 60au a'r 70au, fel Brigitte Bardot!

Mae Gwawr yn cael bywyd braf – haul, môr a bwyd arbennig.

Mae hi'n byw efo'i gŵr, Ron, a'i dwy ferch, Leusa a Laura.

Ond mae hi'n colli mynyddoedd Eryri a'r caeau gwyrdd.

Geiriau

enwog – famous
bywyd – life
efo = gyda = with
colli – (to) miss
cae,-au – field,-s

Geiriau

olew olewydd – olive oil	hwylyrddio – windsurfing
gorfod – (to) have to	tymhorol – seasonal
tripledi – triplets	o fewn – within
cywiro – (to) correct	angerddol – passionate
gweithgaredd,-au – activity, activities	cael ffrindiau draw – (to) have friends over
padlfyrddio – paddleboarding	colli – (to) miss





Natur

gyda Bethan Wyn Jones

Brân goesgoch

(*Pyrrhocorax pyrrhocorax*;
chough yn Saesneg)



Dw i'n hoffi mynd i Ynys Lawd ar Ynys Cybi. Mae Ynys Cybi ym mhen pella Ynys Môn. Ar ddiwrnod clir, dach chi'n medru gweld Iwerddon!

Ar Ynys Lawd, ddiwedd mis Ebrill, mi welais i frân goesgoch neu, os dan ni'n defnyddio'r enw gwyddonol, *Pyrrhocorax pyrrhocorax*. Ystyr *pyrrhocorax* ydy 'cigfran dân'.

Mae'n aderyn hardd efo plu du ac mae sglein arnyn nhw. Mae gynni hi big a choesau coch.

Mae hen chwedl am y Brenin Arthur yn troi'n frân goesgoch. Mae chwedl arall yn dweud: mae'r frân goesgoch yn cynnau tanau!

Geiriau

Ynys Lawd – *South Stack*
Ynys Cybi – *Holy Island*
ym mhen pella – *at the far end*
medru = *gallu* – (to) be able to, can
cigfran – *raven*
pluen, plu – *feather,-s*
sglein – *shine*
pig – *beak*
tân, tanau – *fire,-s*

Gwyllo'r frân

Ger Ynys Lawd, mae Tŵr Elin, sy'n perthyn i'r Gymdeithas Gwarchod Adar (RSPB). Lle gwyllo adar ydy Tŵr Elin.

Mae'n lle ardderchog i weld adar, yn enwedig ar ddiwrnod gwyntog, pan mae perygl i chi gael eich chwythu dros y clogwyni!

Mae'n grêt gallu bod mewn lle sych a chynnes ac eto yn medru gweld y panorama sy'n agor o'ch blaen. Mae'n lle da i weld y frân goesgoch.

Mae camera wedi'i roi ar nyth brân goesgoch reit i mewn yn un o'r ogofâu sy yn y creigiau serth.

Geiriau

clogwyn,-i – *cliff,-s*
nyth – *nest*
ogof,-âu – *cave,-s*
craig, creigiau – *rock,-s*
serth – *steep*

Nythu

Mae brain coesgoch yn paru am oes ac maen nhw'n hoffi nythu mewn ogofâu. Maen nhw'n adeiladu nyth o frigau, planhigion a gwair. Maen nhw'n defnyddio blew a gwllân i wneud y nyth yn glyd.

Gwyrdd golau ydy wyau'r frân goesgoch ac mae marciau bach a sbeciau brown a llwyd arnyn nhw. Dim ond yr iâr sy'n eistedd ar yr wyau.

Mae hi'n dechrau eistedd ar ôl dodwy'r wy cynta. Mae plu llwyd/brown ar y cywion a phorffor golau ydy lliw'r pig.

Mae'r iâr a'r ceiliog yn bwydo'r cywion. Maen nhw'n bwyta pethau ac yna maen nhw'n rhoi'r bwyd yna i'r cywion. Mae'r frân goesgoch yn pigo'r ddaear er mwyn chwilio am fwyd – trychfilod yn benna. Maen nhw'n hoff o chwilod. Chwilen y dom ydy un o'r ffefrynau.

Mae'r rhostir ar y clogwyni o amgylch Tŵr Elin yn Ynys Lawd yn lle perffaith iddyn nhw – mae'r gwair yn ddigon isel ac maen nhw'n medru chwilota yn y pridd am eu bwyd.

Y frân goesgoch ydy aelod mwya prin teulu'r brain yn Ynsoedd Prydain.

Beth am fynd am dro i Ynys Lawd i weld yr aderyn hardd yma – ac Iwerddon hefyd efallai!

Geiriau

nythu – *nesting, (to) nest*
paru – *(to) mate*
oes – *life*
gwllân – *wool*
yn glyd – *cosy*
sbecyn, sbeciau – *specks*
dodwy – *(to) lay (an egg)*
trychfilyn, trychfilod
– *insect,-s*
chwilen, chwilod – *beetle,-s*
chwilen y dom
– *dung beetle*
rhostir – *moorland*
chwilota – *(to) probe*
mwya prin – *rarest*



Dyma'r frân goesgoch

Mae'r frân goesgoch yn aderyn hardd.

Mae ei plhu'n ddu a'i phig a'i choesau'n goch.

Mae Bethan yn gweld y frân goesgoch ar Ynys Lawd, Ynys Môn.

Weithiau, o Ynys Lawd, dach chi'n medru gweld Iwerddon.

Mae chwedlau am y frân goesgoch.

Un chwedl ydy bod y Brenin Arthur wedi troi yn frân goesgoch.

Geiriau

brân goesgoch – *chough*
pluen, plu – *feather,-s*
pig – *beak*
Ynys Lawd – *South Stack*
medru = *gallu* – (to) be able to, can
chwedl,-au – *legend,-s*



Dych chi'n mynd ar wyliau dros yr haf? Beth am wyliau yng Nghymru? Dyma rai syniadau gan Geraint Hardy – mae e'n cyflwyno'r gyfres **Codi Pac** ar S4C ...

Gwyliau gyda Geraint

Dych chi'n hoffi cael gwyliau yng Nghymru?

Dych chi'n hoffi dod o hyd i lefydd newydd i gael gwyliau?

Mae Geraint Hardy yn cyflwyno'r rhaglen wyliau **Codi Pac**. Mae e'n mynd i lefydd yng Nghymru i ddangos beth sy yno.

Mae e'n trio dod o hyd i lefydd

"gwahanol" a dangos beth mae'n bosib gwneud yno.

Yn y gyfres newydd o **Codi Pac** mae Geraint yn mynd i'r Fenni, Yr Wyddgrug, Y Barri, Llangollen, Tyddewi, Castell Nedd, Blaenau Ffestiniog a Phenrhyn Gŵyr.

Yma, mae Geraint Hardy yn ateb cwestiynau **lingo newydd** ...

Sut dych chi'n dewis ble i fynd?

Dyn ni'n trio mynd i lefydd sy ychydig bach yn wahanol. Os dyn ni'n mynd i rywle cyfarwydd, dyn ni'n trio meddwl am lefydd anarferol i ymwelwyr ymweld â nhw pan maen nhw yno. Dyn ni'n trio dod o hyd i bethau gwahanol i bobl wneud.

Mae llawer o drysorau cudd yng Nghymru a dydy pobl ddim bob amser yn gwybod amdany'n nhw.

Dyn ni newydd fod yn ffilmio yng Nghastell Nedd. Fel arfer, dydy pobl ddim yn stopio yno – maen nhw'n mynd yn syth i Benrhyn Gŵyr ac Abertawe. Ond dyn ni wedi dod o hyd i fariâu bach neis, siopau diddorol a siop *vintage* – lle gallwn i fod am oriau!

Mae yna raeadrau anhygoel hefyd. Bydd gwylwyr yn meddwl ein bod ni wedi teithio i rywle egsotig! Do'n i ddim yn ymwybodol ohonyn nhw. Dw i'n bendant yn dod â'r teulu'n ôl fan hyn.

Cryfder y gyfres, dw i'n meddwl, ydy agor llygaid pobl i Gymru.

Dewiswch un o'r llefydd mwya diddorol neu annisgwyl i chi fynd iddo efo Codi Pac.

Mi wnes i fwynhau Aberystwyth yn fawr. Dyma ble mae pawb yn mynd i'r coleg, ro'n i'n meddwl, ond mae llawer mwy i'r dref.

Mae bwytai gwahanol gyda blas y byd, mae safon y bwyd yn wych ac mae'r traeth yn hyfryd.

Ces i fy magu ger Caerdydd ond mae'r teulu estynedig i gyd ym Mangor. Pan oedden ni'n blant, roedden ni'n mynd i'r Gogledd ar wyliau, ond mae Gorllewin Cymru yn anhygoel.

Wnaethon ni aros mewn gwesty moethus, y Manor Town House, yn Abergwaun. Dyn ni wedi dod ar draws tai Airbnb a llefydd eraill i aros ynddyn nhw sy'n anhygoel. Roedd golygfa hyfryd gan un tŷ yn Nhyddewi.

Sut dych chi'n dod o hyd i'r llefydd gwahanol?

Mae'r tîm cynhyrchu'n grêt ac mae lot yn cael ei drefnu cyn i ni ddechrau ffilmio.

Dyn ni'n trio cadw i ffwrdd o Tripadvisor a phethau amlwg a thrio edrych tu hwnt. Mae 'na elfen o addysgu pobl am yr ardaloedd. Dyn ni'n mynd i lot o lefydd annibynnol; mae'n bwysig cefnogi llefydd fel hynny.

Fel arfer, mae pawb isie i ni ddod i ffilmio gyda nhw – mae pobl isie agor eu drysau i ni a rhoi bwyd a diod i ni. Dyna'r llefydd dw i'n hoffi mynd iddyn nhw – pobl sy'n byw'r busnes o'r funud maen nhw'n dihuo tan yn hwyr y nos.

Un o'r llefydd yna oedd yr Olif ym Metws y Coed lle maen nhw'n gwneud tapas Cymreig. Beth sy'n anhygoel ydy bod cymaint o bobl wedi fy stopio i yn y stryd i siarad amdano fe. Mae pobl yn gofyn am tips gwyliau yn aml.



Geiriau

- cyflwyno – (to) present
- dod o hyd i – (to) find
- lle,-fydd – place,-s
- Castell Nedd – Neath
- Penrhyn Gŵyr – the Gower Peninsula
- cyfarwydd – familiar
- anarferol – unusual
- trysorau cudd – hidden treasures
- rhaeadr,-au – waterfall,-s
- ymwybodol o – aware of
- estynedig – extended
- elfen – element
- dihuno = deffro – (to) wake



Ble mae'ch hoff le chi?

Dw i wedi cwmpo mewn cariad gyda Sir Benfro. Mae tawelwch hyfryd yno. Mae prysurdeb y ddinas yn diflannu pan dw i'n gweld y traethau anhygoel. Mae cymaint o lefydd i gael bwyd da. Mae'n grêt ar gyfer y plant hefyd – mae dau o blant bach 'da fi, mab sy'n 4 oed a babi chwe mis oed. Mae Jack, y mab, yn meddwl, 'Mae Dad yn gweithio mewn gwesty'!

Beth dych chi'n mwynhau am y gwaith?

Wel, dw i'n cael aros mewn llyfydd anhygoel. Pan oedden ni yng Nghastell Nedd wnaethon ni aros yn Swit Katherine Jenkins yn y Castle Hotel. Roedd yr ystafell ymolchi yn fwy na thŷ cyffredin!

Hefyd, dw i'n gorfod bwyta lot – ar ddiwedd y dydd mae fy mol i'n llawn! Mae'n un o'r swyddi sy'n gwneud i chi feddwl, 'Waw!'. Mae'r criw yn grêt, a dyn ni'n chwerthin lot.

Pam mae Codi Pac yn apelio at bobl?

Mae'n gweithio fel rhaglen. Dych chi'n cael ychydig o hanes lleol, gwybodaeth am lefydd i

fwyta ac aros a gwybodaeth hefyd am bethau i wneud – mae hynny'n apelio at bawb. Ac mae'r hwyl yn dod drosodd ar y sgrin.

Mae ychydig o bopeth, i bawb o bob oed, ar y rhaglen. Dyn ni'n mynd i abseilio ac i rafftio dŵr gwyllt, dyn ni'n mynd i weld dolffiniaid ac anifeiliaid gwyllt. Dyn ni'n lwcus iawn i gael mynd mas gydag arbenigwyr sy'n gwybod ble i'w gweld nhw.

Mae Codi Pac yn dechrau nos Wener, 7 Mehefin, am 8.25 ar S4C a bob nos Wener ar ôl hynny.

Geiriau

cwmpo = syrthio – (to) fall
 prysurdeb – hustle and bustle
 cymaint – so many
 Castell Nedd – Neath
 gorfod – (to) have to
 drosodd – over
 mas = allan – out

Dyma Geraint Hardy

Mae Geraint yn cyflwyno'r rhaglen wyliau **Codi Pac**.

Mae e'n hoffi mynd i wahanol lefydd yng Nghymru.

Mae e'n mwynhau dod o hyd i bethau gwahanol i wneud yn y llyfydd yma.

Mae e'n byw yng Nghaerdydd, ond mae ei deulu e'n dod o'r Gogledd.

Mae dau o blant bach 'da Geraint – mae un yn bedair oed ac mae un yn chwe mis oed.

Ei hoff le ydy Sir Benfro.

Mae e'n cyflwyno rhaglenni chwaraeon hefyd.

Mae e wedi mwynhau teithio erioed.

Geiriau

cyflwyno – (to) present

lle,-fydd – place,-s

dod o hyd i – (to) find

ei ... – his ...

mae ... 'da ... = mae gan ...

– ... has ...

mae e wedi ... erioed

– he has always ...

Mae Debora Morgante yn byw yn yr Eidal. Mae hi wedi bod ar wyliau i Tsieina.

I fyd y pandas a cwng-ffw

Ro'n i isie mynd i Tsieina am sawl rheswm. Ro'n i isie gwylod mwy am ddiwylliant a hanes gwlad mor bell a gweld sut mae'r bobl yn byw.

Yn arbennig, ro'n i isie gweld ble roedd cwng-ffw wedi dechrau a ro'n i isie ymarfer yr iaith. Ydw, dw i'n dysgu Tsieinëeg hefyd!

Dyma'r tro cynta i fi fynd yno, felly penderfynais i ymweld â'r llefydd mwya poblogaidd.

Wnes i ddechrau gyda Chengdu lle maen nhw'n magu pandas. Mae'r panda'n anifail prin iawn ac mae e'n symbol o Tsieina hefyd. Mae'r pandas yn anifeiliaid doniol iawn. Dych chi'n gallu treulio oriau yn eu gwyllo nhw'n bwyta, yn chwarae ac yn cysgu.

Roedd hi'n emosynol iawn cael y cyfle i'w gweld nhw mor agos ac mewn amgylchedd mor hardd, gyda llawer o blanhigion a choed ble maen nhw'n gallu crwydro'n rhydd.

Wedyn, es i i X'ian, dinas bwysig iawn lle mae un o'r amgueddfeydd mwya anhygoel erioed: amgueddfa'r Fyddin Terracotta: dyma ble mae miloedd a miloedd o filwyr wedi'u gwneud o garreg ac mae wyneb pob un yn edrych yn wahanol.

Ar ôl X'ian, es i Luoyang i ymweld â lle rhyfeddol arall: y Deml Shaolin. Dyma ble dechreuodd cwng-ffw, fel sy yn ffilmiau Bruce Lee. Do'n i ddim yn gallu credu fy mod i yno! Mae'n lle i dwristiaid heddiw, ond mae'r deml yn dal yno, a'r mynachod yn dal yno hefyd. Bob awr, maen nhw'n rhoi perfformiad cwng-ffw ffantastig.




Geiriau

- diwylliant – culture
- lle,-fydd – place,-s
- prin – rare
- treulio – (to) spend (time)
- magu – (to) breed
- amgylchedd – environment
- planhigyn, planhigion – plant,-s
- crwydro – (to) roam
- amgueddfa, amgueddfeydd – museum,-s
- rhyfeddol – wonderful, marvellous
- templ – temple
- dal – still
- mynach,-od – monk,-s



Dewis Debora



Debora ar daith

Mae Debora Morgante wedi bod yn teithio.

Ble aeth Debora?

Aeth hi i Tsieina.

Pam?

Mae hi'n hoffi cwng-ffw ac mae hi'n dysgu Tsieinëeg!

Beth welodd Debora yn Tsieina?

Gwelodd hi'r pandas yn byw yn rhydd.

Gwelodd hi'r Fyddin Terracotta.

Gwelodd hi deml Shaolin – cartref cwng-ffw.

Gwelodd hi Beijing a'r Wal Fawr.

Ydy Debora yn hoffi Tsieina?

Ydy, ac mae hi'n hoffi'r bobl yn fawr iawn hefyd. Mae hi isie mynd yn ôl.

Geiriau

- aeth hi – she went
- Tsieinëeg – Chinese (language)
- gwelodd hi – she saw
- yn rhydd – freely
- byddin – army
- templ – temple

Cwrdd â'r bobl

Heb law am yr holl lefydd anhygoel, creu cysylltiad gyda'r bobl oedd un o'r pethau mwyaf diddorol am y daith. Yn Tsieina does ddim llawer o bobl sy'n siarad Saesneg ac weithiau mae'n anodd iawn cyfathrebu, hyd yn oed gydag ap cyfieithu ar y ffôn symudol.

Os dych chi'n mynd ar wyliau i Tsieina, dw i'n awgrymu dysgu tipyn bach o'u hiaith nhw.

Mae'r Tsieiniaid yn bobl gyfeillgar iawn ond maen nhw'n eitha' tawel. Maen nhw'n hapus iawn pan mae rhywun o dramor yn dangos diddordeb yn eu hiaith. Wedyn,


maen nhw'n dechrau agor i fyny a dangos pa mor neis ydyn nhw.

Pan es i i Beijing roedd pethau tipyn bach yn wahanol. Yno, mae llawer o bobl yn siarad Saesneg ac mae'n haws symud o gwmpas y ddinas. Roedd hi'n wych mynd i ben y Wal Fawr ar ddiwrnod oer ond heulog. Roedd yr olygfa'n hardd iawn.

Dw i isie mynd yn ôl i Tsieina un diwrnod, pan fydd fy ngwybodaeth o'r iaith yn well, i ddarganfod mwy am y wlad enfawr yma a chael mwy o gyfleoedd i siarad gyda'r bobl leol.


Geiriau

- cyfathrebu – (to) communicate



Croesair

Mae rhai o'r atebion yn y rhifyn yma o lingo newydd.



Mae'r atebion ar y gwaelod.

Cofiwch - un llythyren ydy ll, ch, dd a rh.

Ar draws

4. Dyma'r cig sy yn y rysâit y tro yma. (3)
6. Enw'r Gogledd am **pancws**. (7)
7. Mae hi ar ddiwedd eich braich chi. (3)
8. Gêm gyfartal, gyda gôl i'r ddau dîm. (2,2)
10. Mae'n fudr neu'n frwnt ac yn odli gyda 7 ar draws. (3)
11. _____ chi - ... dych chi'n medru. (5)
13. Stori, fel un o storïau'r Mabinogi. (5)
16. Nid hawdd. (4)
17. Mae blaidd yn gwneud y sŵn yma. (3)
18. Mae llythrennau'r **Rhain** yn rhoi enw merch i chi (anag). (4)

I lawr

1. Mae Bethan yn sôn am un goesgoch. (4)
2. Dych chi'n canu hwn yn y capel, efallai. (4)
3. Rhaglen deledu sy'n teithio. (4,3)
5. Dydy hwn ddim yr un peth, mae wedi _____ (5)
9. Maen nhw'n gwneud llestri fan hyn. (6)
10. Mae'r rhain bob ochr i'ch ceg chi! (5)
12. Iddo fe, iddi hi, _____ nhw. (4)
14. Am yr ail waith. (3)
15. Mae llawer yn dweud hyn yn lle **llawer!** (3)

Geiriau

cyfartal - equal
blaidd - wolf

fan hyn - here
yn lle - instead (of)

Idiom lingo newydd


efo Mumph

Dydy llawer o bupur ddim yn dda mewn potas neu gawl. Felly, os dych chi'n dweud y drefn a gweiddi, dych chi'n rhoi pupur ym mhotas rhywun!

Geiriau

potas / potes - broth
dweud y drefn - (to) scold, rebuke
gweiddi - (to) shout

Rhoi pupur yn ei botas



Atebion
Ar draws: 4. Oen; 6. Crempog; 7. Law; 8. Un un; 10. Baw; 11. Gallwch; 13. Chwedi; 16. Anodd; 17. Udo; 18. Rhian.
I Lawr: 1. Brân; 2. Emyr; 3. Codi pac; 5. Newid; 9. Ewenni; 10. Bochau; 12. Iddyn; 14. Eto; 15. Lot.

ap lingo

newydd



Dych chi
eisiau clywed
lingo newydd?

Dych chi eisiau
gwybod sut i
ddweud y
geiriau?

Mae ap **lingo**
newydd ar gael.

Mae ap **lingo**
newydd gydag
ap **golwg**.



ap
golwg

Chwiliwch am ap
Golwg ar iOS ar App
Store, ac ar Android
ar Google Play.

